Gair bach Bethlehem 48

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwaelod-y-garth – rhif 48 (Hydref 2024)
(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Rydyn ni'n ôl!

Aeth misoedd heibio ers ein rhifyn blaenorol ac mae yma amrywiaeth o ddeunydd yn ein haros eto'r tro hwn. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Mae yma newyddion, eich sylwadau am y Brifwyl a pheth o'r cynnyrch hefyd. Cewch erthyglau nodwedd, hanes cyhoeddi dwy gyfrol gan ddau o'n haelodau, deiseb heddwch, pynciau rhyngwladol – a mwy.

Ond yn gyntaf – bedydd!

Bedydd Lena a Nico, draw nôl ym mis Gorffennaf. Dau lun (o ddwy ongl) o blant Anna Glyn ac Owain. Croeso mawr i'r ddau fach. Mae'r oedfa gyflawn ar: https://youtu.be/oqwMncYmaUk



Sgarlets! Sgarlets!

Tra bo chi'n darllen hyn o lith, ddarllenydd annwyl, mi rydw i draw yn yr Eidal; yn yr haul gobeithio, yn gwylio'r Sgarlets yn curo Trefiso. Bydd e'n dipyn o wyrth os lwyddwn ni, ond dyna fe, mae'n rhaid gobeithio! A gobeithio hefyd y bydd dinas Trefiso yn plesio, dinas cwmni enwog Benetton, a dinas sy'n ymfalchïo'n y ffaith taw yno y crëwyd y ddiod Prosecco, a'r pwdin blasus - Tiramisu. A dyw trigolion dinas Trefiso ddim ar ei pennau eu hunain wrth ymfalchïo yn eu bwyd. Ry' ni'r Cymry'n ymfalchïo yn ein Selsig Morgannwg a'n pice ar y ma'n. Ma' Lancashire yn ymfalchïo ac yn hawlio'r Hotpot, Cernyw y pasti, a Bakewell ei tharten (a thros yr haf fe weles i o leia' chwech siop yno yn hawlio taw nhw oedd piau'r rysáit gwreiddiol!) Ma' Bolognia'n hawlio'r Spag Bol, a ma' Napoli'n ymfalchïo yn y ffaith taw nhw greodd y pizza, er ma' na lun o fwyd tebyg ar wal ym Mhompeii, ac ma' na sôn am fwyd tebyg yn cael ei fwyta nôl yng nghyfnod y Pharo yn yr Aifft, sef cyfnod rai o hanesion yr Hen Destament, ac mae'n syndod faint o fwydydd sy'n cael eu henwi'n y Beibl, (ac mae'r union fwydydd yn cael eu henwi'n y Quran) tybed a fydd rhai o'r rhain yn eich synnu?

Afalau, almwnd, barlys, ffa, coriander, ciwcymbr, dyddiadau…sori - "dates", dil, ffigys, garlleg, grawnwin, llaeth, mêl, corbys, melon, mwstard, olewydd, winwns, pomgranadau, sofliar, rhesin (neu "raisins" i chi a fi) halen, gwenith, gwin, shibwns, (ie, shibwns!) ac wrth gwrs bara a physgod, sef y cynhwysion a fwydodd y pum mil. Wrth i'r disgyblion rannu'r ychydig rhwng pawb, yn wyrthiol fe gafwyd bod 'na ddigon, hen, hen ddigon. Oni fyddai'n wych pe bai llywodraethau a chwmnïau rhyngwladol y byd yn llwyddo i gydweithio er mwyn rhannu'r bwyd sydd ar gael fel bo digon i bawb o bobl y byd. Cofleidio'r awydd i rannu yn lle'r awydd i rwygo. Rhyw ddydd cyn hir falle. Bydde fe'n dipyn o wyrth, ond dyna fe, mae'n rhaid gobeithio.

Reit, dwi am ddod â'r ychydig eiriau yma i ben, achos ma' gyda fi bwdin i bennu, a thîm rygbi i gefnogi … Sgarlets! Sgarlets!

Ciao!!!

DELWYN

Suliau Bethlehem – o hyn i Dachwedd

Medi 2024
29 - Alwyn Harding Jones

Hydref 2024
6 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
13 - Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul
20 – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
27 - Oedfa Sul Adferiad - Wynford Ellis Owen

Tachwedd 2024
3 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
10 – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
17 – Oedfa dan ofal Glenys ac Anthony Evans
24 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel

***(Uchod)* Y sedd fawr yn llawn a Huw Lloyd yn gwrando'r adnodau. Mae oedfa gyflawn Huw a gael ar:**
https://youtu.be/Ts0mQ8JsNjk

Isod, cewch ddolen gyswllt i rai o'r oedfaon dros yr haf (Mae oedfaon blaenorol hefyd ar ein gwefan).
Sian Meinir – https://youtu.be/GmajH6BOCrA
Parchedig Dafydd Owen – https://youtu.be/glRIhz0JnzA
Alan Cooke – https://youtu.be/oY1wW6MimuE

Diolch i Wyn am y dechnoleg!

***(Isod)* Y sedd fawr a'r pulpud yn fwy na llawn wrth i Gôr Mizoram ymuno â Chôr CF1 a'u harweinydd, Eilir Owen Griffiths, mewn cyngerdd ym Methlehem.**

Newyddion Bethlehem

ANFON EIN COFION

Mae nifer ohonoch chi'r selogion heb allu mynychu oedfaon Bethlehem yn ddiweddar - am amryw resymau. Rydyn ni'n cofio atoch ac yn dymuno'n dda i chi. Yn eich plith mae'r canlynol:

- Ken a Judith Evans, Pentyrch
- Betty Williams Radur
- Cedric Jones, Radur

Cofion hefyd at un o gyfeillion Bethlehem, Rhiannon Evans, Yr Eglwys Newydd.

YR EISTEDDFOD

Gan i gymaint ohonoch fod yn weithgar ym Mhrifwyl Rhondda Cynon Taf, ofer dechrau enwi fan hyn. Llongyfarchiadau i bawb! (Mae yna ran o'r rhifyn hwn sy'n rhoi sylw pellach i'r Ŵyl).

Cydymdeimlo

Rydyn ni fel cyd-aelodau'n cydymdeimlo â'r canlynol yn eu colled a'u hiraeth:

- Dylan John a'r teulu, Llysfaen. Bu farw tad Dylan yn Ystradgynlais ddiwedd Awst.
- Huw Lloyd a'r teulu, Radur. Collodd Huw ei chwaer, yn Felin-foel, yn nechrau Medi.

Coeliwch neu beidio, mae tri mis ers i Gôr Bethlehem, dan arweiniad Eilir Owen Griffiths, ail-gyflwyno'r Gwynfydau – y tro hwn yng Nghapel Minny Street. Diolch i bawb gymerodd ran ac i'r gynulleidfa hefyd am eu cefnogaeth. Gan i fwy na chwe mis a mwy fynd heibio ers cyflwyno'r gwaith am y tro cyntaf, ym Methlehem, bu'n Eilir yn ddygn yn ein hatgoffa o'r hyn oedd o'n ddymuno yn y ddinas fawr. Gwelir cip o un ymarfer ar y chwith isod.
Ac o ddiffyg llun o'r noson ym Minny Street, dyma i chi (ar y dde isod) un o ganol Rhagfyr y llynedd, yma ym Methlehem.

Priodasau – Heddiw a Ddoe

Dymuniadau gorau i Carwyn a Nia

Ar ddydd Sadwrn y 10fed o Awst 2024, fe briododd Carwyn Wilson-Price o Waelod y Garth â Nia Jenkins o Bontyberem. Cynhaliwyd y briodas yn Eglwys Sant Ioan, Pontyberem, yng nghwmni teulu a ffrindiau. Mae'r ddau yn athrawon ysgol gynradd ac wedi ymgartrefu yn Ystum Taf, Caerdydd. Dymuniadau gorau iddynt am fywyd hapus gyda'i gilydd.

A llongyfarchiadau i'r ddau bâr isod fu'n dathlu'n ddiweddar...

(chwith) Eira a Gwilym Williams, Pentyrch, sydd newydd ddathlu eu **Priodas Ddiemwnt.**

(dde) Ann a Rhodri-Gwynn Jones, Pentyrch, Sydd newydd dathlu eu **Priodas Aur.**

Rhagor fyth o Newyddion Bethlehem

Dau aelod – dau awdur – dau lyfr



Nos Fercher, Medi 18fed, yn yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd, bu nifer o ffrindiau a chydnabod Martin Huws yn cyd-ddathlu ag ef, a Carys, ei ferch, wrth weld cyhoeddi ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth – "Dyn ar Dân".

Gwasg y Bwthyn, Caernarfon, oedd yn gyfrifol am gyhoeddi'r gyfrol, a braf oedd cael cwmni Golygydd y wasg, Gerwyn Williams, i roi hanes cywain y cyfan, yn farddoniaeth a lluniau, trwy'r wasg.

'Roedd y prifardd Cyril Jones yn cadeirio'r noson, gan gymryd y cyfle i holi Martin, a'i ferch Carys, sydd bellach yn ffotograffydd proffesiynol yn gweithio yn Llundain, am y broses o gyd-weithio, am y tro cyntaf, ar blethu gair a llun i gyfoethogi'r naill gyfrwng a'r llall.

'Roedd un arall o drigolion (a chyfaill o) Ffynnon Taf, sef Dilwyn Young-Jones, yn rhoi llais i'r cerddi, a chafwyd noson bleserus yng nghwmni machlud haul a lleuad Fedi hyfryd yn y Bae wrth iddi noswylio.

Mae'r gyfrol ar gael am bris o £9.50 yn eich siopau llyfrau lleol – gwnewch yn siŵr bod copi ar eich silff lyfrau - fel eich bod chwithau yn gallu profi, fel y dywed Catrin Dafydd yn y broliant ar glawr y gyfrol, "*cerddi sy'n dathlu y berthynas rhwng pobl a'i gilydd ac yn amlygu'r gadwyn ddi-dor o ddylanwadau sydd arnom o genhedlaeth i genhedlaeth*"

Rh-G J

****



Un o'r gyfres 'Atgofion drwy ganeuon' ydy cyfrol Delwyn Sion. A dyma ddyfyniad o adolygiad diweddar gan Geraint Løvgreen:

"... fel llawer o gyfrolau eraill y gyfres mae'n rhoi dadleniad difyr inni o'r hyn oedd ar feddwl y canwr/gyfansoddwr wrth sgrifennu ambell gân, a chyfle i fyfyrio ar ystyr y geiriau go iawn. Ac wrth wneud hynny cawn ein cyflwyno i hanes bywyd yr awdur, mewn fformat sydd dipyn yn fwy diddorol na hunangofiant arferol.

Mi fentrwn i ddweud bod Delwyn yn un o eicons y byd pop Cymraeg. ... Dewis gwych i agor y gyfrol ydi'r gân 'Cwm Cynon', a'i phortread cynnes o fro plentyndod Delwyn, cân sydd hefyd yn agor ail ochr y record hir a gafodd ei chydnabod yn glasur o'r cychwyn cyntaf, sef Ffrindiau Bore Oes Hergest. Dyma'n cyflwyniad ni i gefndir y canwr, cymoedd y De, a'i hynafiaid wedi mudo o Frycheiniog a'r gorllewin i ardal y glo."

Fel mae'n digwydd, mae'r geiriau "Ond oedden nhw'n ddyddiau da" yn cael eu dyfynnu yng nghyfrol fuddugol "Y Morfarch Arian", Eurgain Haf, enillodd wobr Daniel Owen yn y Brifwyl eleni. Maen nhw yno, sawl tro!

A wnawn ni ddim dyfynnu fan hyn beth oedd barn Delwyn am gân ei gefnder, Max, pan glywodd hi gyntaf!

IR

Gair o ddiolch ac atgofion

Kay Clement

Gair bach o ddiolch gyda gwerthfawrogiad i'm ffrindiau ac i'm teulu estynedig ym Methlehem.
Yn cofio'n annwyl am David Michael Clement "Goleuni Fy Mywyd"!
Fe gasglwyd £1,250 a da oedd gallu cyflwyno'r swm hwnnw yn ei enw, i elusen Dementia Research UK.
Boi ei filltir sgwâr oedd Dai Clem, fel bydden pawb yn 'i 'nabod e. Diwylliant y cwmoedd glo yn gryf yn ei bersonoliaeth.
Buodd yn rhan o'm mywyd i yn gynnar iawn ers pan o'n i'n rhyw 7 ne' 8 mlwydd oed. Y ddau ohonom yn rhan o Bantomeim "Snow White" yn y capel - fe fel Corrach a finne yn un o'r 'fairies' yn byw yn y goedwig !
Blwyddyn o'm m'lan i yn yr ysgol, dechreuon ni fynd mas gyda'n gilydd ryw 16 a 17 oed, ond pwdi mach pryd lwyddes i prawf gyrru o'i flaen e!
Dilynom ni wahanol lwybrau, David yn dilyn cwrs pensaernïaeth yng Nghaerdydd a fi i'r Gwasanaeth Iechyd yn dechre yn Ysbyty Treforys, ond symud ymlaen i Lundain, Bryste ac wedyn i Genefa, a siarad mach o Ffrangeg!
David yn penderfynu hedfan mas i'r Swistir a dyweddïo fanna wrth ymyl "Lac Lemain",
Quelle histoire a rhamantus yn wir!
Priodi rhyw 6 mis yn ddiweddarach yn yr haf '68 ac ymgartrefu yng Nghaerdydd.
Bywyd yn hapus iawn. Gwneud ffrindiau oes, prynu tŷ, dechre busnes, codi tair o ferched. Bywyd yn fishi, bywyd yn gyffroes, bywyd yn dda, plant yn tyfu lan. Cymaint mynd m'lan, ond joio popeth !

Mewn gwirionedd, s'dim llawer o syniad pryd ddechreuodd David fynd yn dost. Bydden i byth yn gallu dodi amser na dyddiad arbennig ar y peth. Un o'r pethe nodweddiadol oedd ei ymddygiad, mynd yn ddi-amynedd a rhwystredig gyda popeth, ac yn ffili cyd-weithio gyda ni fel teulu. Haws oedd cymysgu symptome gyda phrysurdeb busnes, a bywyd, anhwylder, neu iselder. Doedd e ddim 'i weld yn ffitio mewn i'r categorïau gwyddonol y cyflwr. Er enghraifft, roedd e yn

- Greadigol ac yn mwynhau ei waith,
- Gerddorol a phrynu gitâr yn unarddeg, ac yna yn bymtheg oed, rhannu cordiau gyda Edward Morus Jones yn Ysgol Haf Yr Ysgol Sul yn Aberystwyth!
- mwynhau chwaraeon – rygbi, athletau ac yn rhedeg yn gyson.
- yn gymdeithasol wrth fwynhau'r côr Hen Nodiant, a ffrindiau St. Philbert !
- gwrando ar y radio yn ei waith. Y Goons a Talwrn a llawer mwy.
- Boi Shed heb ei ail. Yn ei gwtch bach sanctaidd ar waelod yr ardd, yn treulio oriau yn

trwsio a cyweirio beth bynnag , ac yn iaith y glowyr “dodi’r tŵls ar y bar” ar ôl cwpla.

Ond fe ddirywiodd pethau yn araf dros ben a braidd bydden i yn sylwi. Yn derbyn bod dim byd mynd i wella, ond neud y gorau gallen ni gyd fynd ymlaen fel teulu a byw mor agos gallem ni i’n bywyd arferol. A dyna fel buodd hi am beth blynyddau, yn dost am amser hir, byth yn achwyn. Wastad mwyhau ei fwyd, yn gallu cynnal sawl sgwrs digon call ond hefyd yn gofyn cwestiynau. Buom ni’n siarad yn onest iawn am bopeth. Bues i a fe i’r ‘day centre’, ym Mhontypridd am ryw gyfnod – ond yn anhapus tu hwnt yna. Bydden i’n mynd nol i bigo fe lan ar ôl siopa yn Tesco.
Yn fwy diweddar, wrth ishte yn ei gader, fe fydde fe’n gallu mwynhau cwmni’r wyrion. Y plant digon cyfarwydd gyda’u tad-cu erbyn hyn, ac yn barod i helpu fi gyda beth bynnag. Bob penwthnos, bydden nhw’n adrodd eu hanes o’r ysgol, o’r meysydd chware (er bydden i byth yn gw’bod faint o’dd e’n gallu dilyn). Ar adegau bydde fe’n danto, a yn cael digon ! Yn teimlo ambell waith bydde David ‘gyda’ fi yn trio sgwrsio o bryd i bryd, yn deall beth oedd mynd m’lan yn feddyliol, ac yn llygadu yn synhwyrol, ond wedyn cwympo nol i gysgu.

Ond ymlaen a’r cyflwr, a ddaeth yr amser i ofyn am help llaw gyda David, unwaith yr wythnos. Daeth ‘social services’ i wneud asesiad. Buodd y gwasanaeth iechyd yn wych. Gwely ysbyty gyda’r nyrsys cymdeithasol. Fe ddaeth popeth arall oedd angen o’r Gwasanaeth Cymdeithasol. Yn wir daeth y Cafelri mewn! Gofalwyr dwy waith y dydd - bore a nos. Pobol mewn i ‘eistedd’ gyda David yn cadw cwmni iddo fe, i fi gal mynd mas! Roedd popeth yn rhedeg digon esmwyth ac yn ‘do-able’ i fi. Ffrindiau’n galw a holi amdano ni. Bydde’r merched yn galw ar ôl ysgol Sul a rhoi’r hanes. Pwy oedd na “a lot yn gofyn amdano ni “ ! Diolch i chi gyd, ffrindiau, y côr, y gymdeithas, a’r teulu estynedig yng Nghwmtawe. Deimles i fyth yn unig nac yn anweledig. Meddwl hefyd pa mor ffodus oeddwn ni yn byw yng Nghymru pan oedd Mark Drakeford wrth y llyw. Bydden i byth wedi gallu llwyddo cadw David yn tŷ, heb y Cafelri o gymorth da’th i wasanaethu. Diolch Mr. Drakeford!
Mae’n ddyled i yn enfawr heb os, i’n plant. Y Dair wedi bod yn amhrisiadwy gyda popeth ac am amser hir iawn. Yn gefnogol drwy’r amser, yn galw, yn aros dros nos, yn siopa gyda pethe angenrheidiol, ac yn barod y funed bydde fi yn codi’r ffôn. Diolch Lowri, Luned a Bethan.
Wel do, fe ddaeth yr awr fawr.
Am 4.30 ar fore 11 fed o Fehefin. Sylweddoli a derbyn yr ergyd fawr. Es i lan llofft i ddihuno Luned a Bethan. Ffonio Lowri.
A fanna buom ni, ar doriad gwawr, yn gwmni gyda David, yn myfyrio a siarad sbo’r wawr gynnar yn troi yn ddydd heulog, a’r G.P. yn canu’r gloch mach cyn wyth.
Yn teimlo rhyw fath o rhyddhad bod e nawr mas o’i ddiflastod a wedi croesi mewn i le llawer gwell.
A chofio bod “.. y maglau wedi eu torri, [a’i] draed yn gwbwl rydd” nawr.

Y Cwrdd Merched

Sain Ffagan a'r Ddeiseb Heddwch

Eirlys Davies, Radur

Mae Cwrdd Merched Bethlehem, fel miloedd o bobl eraill, yn hoff iawn o ymweld ag Amgueddfa Sain Ffagan. Roedd ein hymweliad cyntaf fel grŵp yn 2002, fel y gwelwch yn y llun ar y chwith isod, adeg ail adeiladu Eglwys Sant Teilo. Buom ar ddau ymweliad arall, un i weld y casgliadau dillad a'r llall i gael sgwrs gan Dafydd Wiliam am y paratoadau i ddatblygu Llys Llywelyn.

Eleni ar Fedi'r 10fed aeth criw bach ohonom i weld yr Arddangosfa 'Hawlio Heddwch'. Yno cawn hanes rhyfeddol yr ymdrech yn 1923-24 i fynd ati i gasglu llofnodion merched Cymru oedd yn galw am fyd heb ryfel. Sefydlwyd Cynghrair y Cenhedloedd yn 1920 fel rhan o Gytundeb Versailles, dyna'r sefydliad rhyngwladol cyntaf mewn hanes â'r bwriad o fod "*yn ysbrydoliaeth i'r miliynau oedd wedi syrffedu ar ryfel ac a oedd yn gobeithio ac yn gweddio am heddwch parhaol".* Ond nid oedd America wedi ymuno â'r Cynghrair.

Teimlai nifer o wragedd dylanwadol yng Nghymru y dylid perswadio America i ymuno â'r Cynghrair. Nid oeddent fyth eto am weld y colledion enbyd a ddioddefodd eu teuluoedd yn ystod y rhyfel byd. Mewn Cynhadledd o Undeb Gymreig Cynghrair y Cenhedloedd yn Aberystwyth ar Fai 23ain 1923 cynigiwyd yn ffurfiol gan Rose Davies o Aberdâr, ac eiliwyd gan Mair Ogwen Griffiths, Y Felinheli, y byddai'n wych pe bai merched led-led Cymru'n cydweithio i anfon Apêl at ferched America i ofyn iddynt ddwyn perswâd ar yr UD i ymuno ag Undeb y Cenhedloedd.

Lluniwyd yr Apêl. Dyma'r paragraff olaf -

> *"Mae'r dyfodol yn llawn gobaith os gwnawn ni, ferched y genhedlaeth hon, ein rhan. I ni y rhoddwyd cyfle ac y mae cyfle yn gyfrifoldeb. Galwyd arnom i roddi o'n hanwyliaid ac ni feiddiwn eu bradychu hwy trwy wrthod gorffen y gwaith a ddechreuasant. "Heb ddig at un gwr," yn ôl geiriau anfarwol yr Arlywydd Lincoln "gan garu pawb, yn gadarn yn y gwirionedd," apeliwn atoch, Ferched Unol Daleithiau'r America, yn eich amser da eich hunain, ac ar hyd y llwybrau a fo oreu gennych, i'n cynorthwyo yn ein hymdrech i drosglwyddo i'r oesau a ddêl fyd di-ryfel yn dreftadaeth dragwyddol."*

Ar ôl y gynhadledd yn Aberystwyth aed ati i benodi Trefnyddion i drefnu dosbarthu'r Ddeiseb. Penodwyd Mary Ellen Pritchard, Pwllheli, yn y gogledd ac Ethel Elizabeth Poole, Casnewydd, yn siroedd De Cymru a Mynwy. Roedd angen arian i wireddu breuddwyd y merched, ac yn araf iawn a fesul ceiniog a phunt, fan hyn fan draw, llwyddwyd i gasglu £834 1s 10c. Talwyd cyflog y Trefnyddion a theipydd a chomisiynwyd y Gist Dderw. Rhwymwyd yr Apêl mewn lledr Moroco a llythrennu mewn aur ar y clawr. Ar ôl y gwario i gyd, roedd £69 2s 6c ar ôl yn y coffrau.

Yr hyn a wnaeth wahaniaeth mawr i lwyddiant yr Apêl oedd penodi ysgrifenyddion lleol. Gweithiodd 400 o ferched egnïol i gasglu llofnodion merched led-led Cymru ac fe gasglwyd llofnodion merched oedd yn byw yn Lloegr hefyd. Erbyn diwedd Ionawr 1924 roedd 390,296 o lofnodion wedi eu pacio'n ofalus i'r Gist Dderw yn barod i deithio i America. Cyflwynwyd yr Apêl i ferched America mewn cinio mawreddog yng ngwesty'r Biltmore, Efrog Newydd ar

Chwefror 19eg 1924. Roedd pedair merch yn gyfrifol am gludo'r Apêl sef Annie Hughes Griffiths; Mary Ellis; Elined Prys a Gladys Thomas. Cyn diwedd mis Chwefror roedd y merched yn cael derbyniad yn y Tŷ Gwyn, Washington, gan yr Arlywydd Calvin Coolidge. Roedd lleisiau merched Cymru'n cael eu clywed yn uchelfannau Llywodraeth America. Parhaodd llawer o'r cysylltiadau traws-Iwerydd am flynyddoedd a bu Cynadleddau a Phwyllgorau lawer yn ceisio hybu heddwch a chael byd di ryfel.

Arhosodd y Gist Dderw a llofnodion merched Cymru yn ddiogel yn Amgueddfa Smithsonian yn Washington, hyd nes yn 2014, i weithiwr yn Deml Heddwch yng Nghaerdydd ddod ar draws copi o'r Apêl wreiddiol mewn cilfach yn y Deml. Aed ati wedyn i geisio cael gafael ar y Gist a'i dychwelyd i Gymru a dyna a welsom yn Sain Ffagan y mis hwn. Caiff y llofnodion eu cadw'n ddiogel yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth a chyn bo hir fe fydd modd gweld yr holl enwau yn ddigidol ar lein. Tybed fydd enw eich Nain/Mamgu chi yno? Darllenwch fwy o hanes yr Apêl yn llyfr diddorol Mererid Hopwood a Jenny Mathers.

AUR CYMRU

Cyn gadael yr Oriel yn yr Amgueddfa gwelsom gasgliad o wrthrychau aur a ddarganfuwyd yn naear Cymru. Roedd un gwrthrych trawiadol iawn ac yn un o'r arteffactau aur cyntaf i'w darganfod yng Nghymru, sef LWNWLA, Llanllyfni, Dyffryn Nantlle. Mae'r addurn hwn ar ffurf cilgant i'w wisgo o gwmpas y gwddf, efallai mewn seremonïau. Credir ei fod wedi ei lunio o aur ardal Dolgellau neu efallai gloddfa aur Dolau Cothi.

Darganfuwyd y LWNWLA tua 1869 ar dir fferm ger Llanllyfni a'r arbenigwyr yn tybio ei fod yn mynd nôl i tua 2400 - 2000 CC. Dim rhyfedd fod Marian Evans, sy'n wreiddiol o Ddyffryn Nantlle yn teimlo'n agos iawn at y darn aur arbennig hwn!

(Ac isod a'r dudalen nesaf – Rhodri-Gwynn yn canfod enwau'r teulu ar y ddeiseb uchod)

Ymateb i'r Papur Bro

Rhagor am Ddeiseb Heddwch y Merched

Rhodri-Gwynn-Jones

Fel y gwelwch uchod yn erthygl Eirlys, dechreuodd tymor newydd Cwrdd Merched Bethlehem gydag ymweliad â Sain Ffagan, i weld yr arddangosfa sy'n cofnodi dychweliad "Deiseb Heddwch y Merched" i Gymru.

'Nôl ym mis Gorffennaf, yn "Lleu", papur bro Dyffryn Nantlle, sy'n cyrraedd y tŷ acw yn fisol ers ei gychwyniad yn 1975, 'roedd Angharad Tomos wedi cynnwys erthygl yn tynnu sylw at y ffaith bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi digideiddio cynnwys y ddeiseb. Bellach, meddai, mae modd gweld yr enwau fesul pentref wrth fynd ar wefan:- *Deiseb Heddwch Menywod Cymru - Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Nododd bod enwau Dyffryn Nantlle ym mocs 8 dan "Llanllyfni", a holodd "*tybed oes perthnasau yn perthyn i chi?*" ac hefyd *"…a gadewch i Lleu wybod os ydych yn canfod nain neu hen nain*."

A dyna yn union wnes i - ac fe ddilynais sialens Angharad a rhoi gwybod am yr hyn a ddaeth i'r fei.

Dyma ran o fy ymateb:-

"*Fe ges i fy magu yng nghysgod y Neuadd Goffa a'r gof-golofn ym Mhenygroes, ac 'roeddwn yn dod yn fwy-fwy ymwybodol o ystyr y naill ar llall fel y tyfwn. 'Roedd englyn R. Williams Parry hefyd yn ddarn cyfarwydd o farddoniaeth gan i mi gerdded heibio'r geiriau cerfiedig bob dydd, i'r chwith ar y ffordd i'r Ysgol Gynradd, ac i'r dde wrth ymlwybro i Ysgol Dyffryn Nantlle, a hynny nes cyrraedd fy neunaw oed.*

'Roedd tawelwch o amgylch y gofeb ar Sul y Cofio yn achlysur teilwng, ac 'roedd y gofeb farmor ar bared mewnol Capel Saron yn nodi bod teuluoedd o "Clynnog Road", rownd y gornel i tŷ ni, wedi colli anwyliaid yn y gyflafan rhwng 1914 ac 1918.
Ond chlywais i erioed am "Ddeiseb Heddwch y Merched"! Pam tybed ein bod wedi'n amddifadu cyhyd o stori anhygoel fel hon? Beth bynnag, fe dderbyniais her awdur yr erthygl, a chwilota am enwau perthnasau teuluol ymysg y llofnodion.
A do fe ddeuthum o hyd i'm dwy nain yn eu mysg.
'Roedd un, Kate Jones (ganed 1874), yn byw ym Mhenrallt, Nebo (mam fy nhad / nain Nebo).



Roedd y nain arall,, Catherine L Evans (ganed 1898), yn byw yn 76 Hyfrydle Road, Talysarn (mam fy mam / nain Birmingham).



Dim ond un o'r ddwy y ces y cyfle i fod yn ei chwmni. Beth tybed fyddai eu hatgofion am y Ddeiseb petawn wedi cael y cyfle i'w holi?
Diolch i bawb sydd wedi gweithredu i ddod a'r stori 'nol yn fyw i ni, a sicrhau na fydd hi byth eto yn cael ei chloi mewn cist a'i anghofio."
Syndod, o dderbyn rhifyn mis Medi o "Lleu" oedd gweld yr hyn a anfonais wedi ei argraffu'n erthygl ar dudalen 3, gyda ychwanegiad o ddau lun oedd ym meddiant fy chwaer yn rhoi wyneb i'r llofnodion yr oeddwn wedi eu darganfod.
Mae "Deiseb Heddwch Merched Cymru" yn cael sylw hefyd yn y rhifyn cyfredol o "Cristion" [Rhifyn mis Medi / Hydref 2024] gydag erthygl gan Sian Howys, sy'n aelod o dim Hawlio Heddwch yng Ngorllewin Cymru, a Rhwydwaith Heddwch ar Waith.
Dywed y gellir gweld rhai o'r straeon perthnasol ar dudalen: Lleisiau'r Ddeiseb: Straeon Heddwch Menywod – Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (wcia.org.uk/cy/straeon)
[Lleisiau'r Ddeiseb: Straeon Heddwch Menywod - Welsh Centre for International Affairs (wcia.org.uk)

Neges Ymwelydd!

Llythyr Takurua Parent

I'r rhai ohonoch sydd wedi darllen "Rapa" - llyfr Alwyn Harding Jones, am Anturiaethau Cymro Ifanc ym Moroedd y De, efallai bydd yr enw 'Takurua Parent' yn canu cloch. Yn ddiweddar bu Taku'n aros gydag Alwyn ac Angharad yn Ffynnon Taf a dyma lythyr ganddi at ddarllenwyr 'Gair Bach Bethlehem' yn cyflwyno ei hun ac yn cofnodi ei hymweliad.

Taku

Aronga* deulu Bethlehem!

Takurua Parent ydi f'enw i, neu Taku i'm ffrindiau (i'w ynganu fel Tacŵ yn y Gymraeg). Rwy'n bump ar hugain oed ac wedi fy ngeni a'm magu ar ynys bellennig 'Rapa Iti', yn Polynesia-Ffrengig yng nghanol Moroedd y De. Ynys fechan o tua 450 o drigolion sydd 770 o filltiroedd i'r de o ynys Tahiti.

Fel plentyn ar yr ynys dwi'n cofio fy nhaid yn sôn am stori gan ei dad ef am drueiniaid o Brydain, llawer ohonynt yn Gymry, gafodd loches ar yr ynys wedi llongddrylliad ym 1918. Mae'r hanes yn rhan o gof llafar pobol ynys Rapa hyd heddiw.

Dair blynedd yn ôl cefais e-bost gan Alwyn, oedd wedi cael fy nghyfeiriad gan Christian Ghasarian, anthropolegydd o'r Swistir fu'n astudio ein ffordd o fyw ni'r Rapiaid (ac oedd wedi dod yn gyfaill i'r teulu) pan oedd Alwyn yn ymchwilio ar gyfer ei lyfr am hanes ei daid. A thaid Alwyn, wrth gwrs, yn un o'r Cymry rheiny fu'n llochesu ar yr ynys am chwe wythnos yn 1918, cyn iddynt gael eu hachub a'i cymryd â stemar i Tahiti, ac yna 'mlaen i Auckland a nôl adref i Gymru.

Anodd oedd credu fy mod wedi derbyn y fath e-bost. Ac wedi rhannu profiadau bywyd heddiw ar Rapa hefo Alwyn ar gyfer ei lyfr, a chlywed am Gymru a'i thraddodiadau ganddo, mi addewais i mi fy hun byddwn ryw ddydd yn ymweld â Chymru i gwrdd ag Alwyn a'i deulu.

Erbyn hyn, rwy'n briod â Chris sydd yn frodor o ynys Tahiti a buom ni'n dau yn aros gyda Alwyn ac Angharad ym mhentref Ffynnon Taf am rai dyddiau yn ystod mis Medi eleni. Deuthom draw yn unswydd i wireddu un o'm breuddwydion, sef cyfarfod ag Alwyn, awdur y llyfr sydd erbyn hyn wedi ei osod yn amgueddfa fechan hanes ynys Rapa.

Cawsom ein pedwar gyfle i siarad llawer am ein profiadau, bwyta llawer (chi'n synnu?) ac ymweld â sawl lle o bwys hanesyddol. Buom draw yn eglwys Llancarfan i weld y murluniau hynafol sy'n dyddio o'r 1470au, Amgueddfa Werin Sain Ffagan i weld, ymysg pethau eraill, â Chapel Pen-rhiw, mynwent drist Aberfan a Chapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Pan soniodd Alwyn mai cenhadwr o Gymro o'r enw John Davies o Lanfihangel-yng-Ngwynfa oedd yn gyfrifol am sefydlu'r eglwys Gristnogol ar ynys Rapa nôl yn 1826, roedd rhaid i mi ddweud wrtho fy mod yn gwybod yr hanes hynny'n barod! A hyd heddiw mae pobol ynys Rapa yn ddiolchgar i John Davies, a'r mwyafrif o'r 450 o drigolion (sy'n fy nghynnwys i) yn arddel y ffydd Gristnogol ac yn ceisio dilyn troed Crist yn ein bywyd bob dydd. Roedd ymweld â Chapel Bethlehem a chael deall rhywfaint am hanes fanno fel adeilad a godwyd ddeg mlynedd ar hugain cyn ein heglwys bresennol ni (roedd eglwys lai yno cyn hynny) yn wefreiddiol. Ac yna cael ar ddeall fod yr Anghydffurfwyr yng Nghymru wedi dechrau addoli mewn adeiladau fferm fel Capel Pen-rhiw, cyn adeiladu capeli yn unswydd ar gyfer cynulleidfaoedd oedd ar dyfu.


Taku a Chris yn Ffynnon Taf

Roedd y cysylltiad rhyngom a chlywed am ein gwreiddiau Anghydffurfiol yn gyrru ias lawr fy nghefn.

Rwy'n dilyn cwrs PhD ar hyn o bryd - a chan mai ieithyddiaeth yw fy arbenigedd, penderfynais astudio'r iaith Rapan sydd wedi dechrau cilio ymysg ein pobol ifanc. Rwy'n angerddol am ein traddodiadau a'n hiaith frodorol ac mae hyn eto yn ddolen gyswllt gref rhyngom. Mae'n rhyfeddol mor debyg yw ein golwg ar fywyd a ninnau o ddwy genhedlaeth mor wahanol ac wedi'n magu ar ddwy ochor o'r byd.

Erbyn hyn, dwi a Chris ar ein taith hir nôl am adref. Cyn ffarwelio, cawsom noson hyfryd yng nghwmni teulu agos Alwyn ac Angharad. Ac mae gen i ofn dweud, wedi bod yng nghwmni Alwyn am rai dyddiau, tydi o ddim

syndod fod siâp ei gorff yn beth ni'n ei alw'n siâp corff Polynesaidd (disgrifiad annwyl yw hynny) - cawsom lawer o hwyl fel gallwch ddychmygu!

Pan oedd criw'r *Inverness* yn gadael ynys Rapa am Tahiti, wedi chwe wythnos o fyw yng nghwmni fy nghyn deidiau, roedd y dagrau yn llifo ar gei bychan Ha'uréi. Bws cynnar y National Express gawsom ni i'n cludo i'r maes awyr fore Mercher, ond wedi profiadau mor arbennig, wrth i ni ddymuno *'Nānā, Nānā'* i'n gilydd, yn y gobaith cawn gwrdd eto ryw ddydd, roedd ambell ddeigryn yn cronni'r bore hwnnw hefyd.

Tongia**,

Taku

*(Troed-nodyn: iaith Rapan - *'Aronga' = Annwyl, **'Tongia' = Cariad)*

Heddiw ddoe

Lecsiwn, tei a theiliwr!

Arwel Ellis Owen

Wrth ddilyn hynt a helynt ymgyrch etholiadol am Arlywyddiaeth yr Unol Daleithiau, rhwng Dirprwy Arlywydd Harries ar cyn Arlywydd Trump, mae y cof yn mynd nol i etholiad 1968 a fy ymweliad cyntaf ag U D A.

Roedd rhaglen Heddiw, sef darllediad teledu dyddiol BBC Cymru ar y pryd, yn araf symud o fod yn rhaglen oedd yn canolbwyntio ar storïau a chymeriadau lleol ,i fod yn hanner awr o newyddion cenedlaethol .Datblygiad oedd yn adlewyrchu cyffro mawr y chwedegau o sefydlu y Swyddfa Gymreig, Tryweryn a llwyddiant Plaid Cymru, ac ymgyrchoedd o blaid arwyddion ffyrdd dwyieithog, darlledu ac ail gartrefi, yn ogystal a Thynged yr Iaith a sefydlu Cymdeithas yr Iaith. Roedd hi yn dda cael bod yn gyw newyddiadurwr.

Rhyfel Fietnam oedd y stori fawr rhyngwladol, a pan gyhoeddodd Arlywydd Johnson ei fod am sefyll lawr or Ty Gwyn, yn bennaf oherwydd gwrthwynebiad i'w bolisïau milwrol, fe ddewisodd y Blaid Ddemocrataidd Hubert Humphrey i sefyll yn erbyn Richard Nixon. Roedd Humphrey, fel Harries heddiw, yn Is Arlywydd, ac yn llamu ir bwlch etholiadol, yn hwyr yn y dydd, wedi i Johnston, fel Biden heddiw ,gamu or neilltu.

Amser etholiad mae pob ymgeisydd yn chwilio am gysylltiadau, ac yn America mae hynny fel arfer yn golygu honni bod na dras Gwyddelig, neu Iddewig rhywle yn hanes pell y Gwyddelig, neu honnodd gynta, bod o hefyd am gael ei gydnabod fel " hanner neu hwyrach chwarter Cymro". Buan wedyn dyma Humphrey yn honni yr un etifedd Celtaidd.!

Bryd hynny o ni yn chwarae gem sboncen bob bore Mawrth, gyda Owen Edwards, ac wrth newid, fe awgrymodd " pam na ei di ir Unol Daleithiau i adrodd nol ar yr etholiad rhwng dau Gymro"? Erbyn amser cinio roedd Cymro da arall, sef Huw arall, sef darlledu y Gorfforaeth, wedi cefnogi y syniad. Drannoeth o ni ar y ffordd i Heathrow.

Un amod osodwyd gan Hathro mod yn ymuno a Charles Wheeler a Gerald Hathro y daith, er mwyn i fi ddysgu sut oedd Gohebwyr Tramor y Gorfforaeth yn ymddwyn amser etholiad. Un o oblygiadau hynny oedd fy mod yn gorfod aros yn y gwestai mwy moethus ac yn teithio dosbarth cyntaf ar bob awyren.! Y drafferth fwyaf ges i wrth ddilyn y ddau oedd bod un, sef un, sef dwyn gwraig Wheeler. Doedd na ddim cyfathrebu rhwng y ddau, a buan y datblygodd yr arfer o i un ddweud rhywbeth i fi.

Oherwydd cysylltiadau y ddau, fe ges i fy hun yn gwneud darn i gamera yn eistedd ar ddesg yr Arlywydd yn yr " Oval office", ac yna yn cyfweld Mayor Daly yn Chicago wedi iddo orchymyn ei blismyn ar soldiwrs lleol i ymosod ar brotestwyr oedd yn gwrthwynebu rhyfel Fietnam.

Diwrnod cyn yr etholiad cynhaliwyd ymarfer mewn stiwdio yn Efrog Newydd. Robin Day oedd cyflwynydd y rhaglen canlyniadau ir rhwydwaith, gyda fi yn paratoi i ddarlledu yn fyw i Heddiw. Bryd hynny roedd delweddau or etholiad oedd i'w gweld tu cefn ir cyflwynydd, yn cael eu taflu drwy y corff cyn belled a bod dim glas ar ddillad y cyflwynydd. Os oedd na las bydda y delwedd yn ymddangos ar y tei neu y siwt yn hytrach na'r bwrdd tu cefn. "Robin" medda y llais o'r ystafell rheoli, "newidiwch eich tei bo, mae o yn las" Roedd tei bo Day yn rhan o'i gymeriad. Byddai yn gwisgo tei bo i frecwast. "Na" oedd yr ateb swta, "mae gennyf gytundeb ecsliwsif gyda'r teiliwr yn Saville Row yn Llundain. Dim ond ei ddilledyn o dwi yn gwisgo, a hwn dwi'n gwisgo ydi yr unig un sydd gennyf" Moment o dawelwch cyn ir cynhyrchydd ymddangos. "Ewch i Macey" siop drud yn Manhattan" a phrynwch y tei bo drutaf sydd yna yn America. Unrhyw liw ond glas" Cododd Day gan ymestyn i'w lawn daldra, tipyn yn dalach na chwe troedfedd, gan osod ei sbectol ar ei goryn, ac edrych i fyw llygad y cynhyrchydd, a dweud, "mae gennyf un coch adre yn Llundain, ewch i'w nol ai hedfan allan dros nos" A dyna ddigwyddodd.
A beth am fy nghyflwyniad byw i, ar gyfer Heddiw? Fe gyrhaeddodd y "switching Centre" yn Broadway, Caerdydd, yr holl ffordd o Efrog Newydd, ond rhywsut fe gollwyd y linc rhwng Broadway a'r stiwdio yn Stacey Road, ganllath i ffwrdd!

^^^

... ac yn awr

Blas o'r Eisteddfod!

Diolch i bawb anfonodd gyfraniad i'r rhan hon

Diolch i Catrin Dafydd am ei chaniatâd i gyhoeddi'r gerdd isod. Yn seremoni Urddo Aelodau Newydd yng Nghylch yr Orsedd ar y bore dydd Llun ym Mhontypridd y cyflwynodd 'Catrin o'r Garth' ei cherdd - yn y Pafiliwn oherwydd y tywydd. O'i blaen hi roedd Delwyn Sion - 'Alaw Dâr' – wedi cyflwyno Cân Goffa am aelodau'r Orsedd sydd wedi ein gadael.

Daeth y Brifwyl i fro annwyl!
Y fro anwyla, bro brawd –
bro hen wlad fy Mamau heddiw'n
gwtsh - bro codi bawd!
Bro lle mae'r Gymra'g mewn Saesneg
a'r Gymra'g yn gân, yn gri –
lle ma' bywyd YN rhy gormod
ambell ddydd, "so dyna ni!"
Cymoedd hardd y croeso cynnes,
Rhondda, Ponty, Abderdâr –
gwlad yr holi'n daer "shwd wyt ti?",
gwlad gymdogol, gwlad wâr.
Gwlad Morfudd, Christine hefyd,
gwlad rhen Ddoctor William Preis.
Rach Trezise a Martyn Geraint –
Jamborî o bobol neis!
Der i sawru'r holl ddireidi
sydd fel anthem ar bob stryd.
Strydoedd sgyrsiol y tai teras
a'r Wenhwyseg 'na o hyd.

Cer rownd Ponty, cer i'r Muni,
cer i'r lido'n nofiwr ffraeth,
man a brynwyd gan y glowyr
i'w teuluoedd drwy eu gwaith.

Draw am Sardis cyn mynd ymaith -
dala'r trên i'r Rhondda nawr
lle mae highstreet wych Treorci
yno'n hy heb gadwyn fawr!
Clecia goffi, sasparilla
caffis Bracchi hardd y fro -
dros espresso cryf y bore
cân côr meibion ddaw i'r co'.

Yna'n dalog, Aberdâria'i
i gwm Cynon ar dy hynt
lle mae calon Colisëwm
yno'n gwthio'r gwaed ynghynt.
Tref sy'n darian i'w holl weithwyr
a sosialaeth yno'n sôn.
Tref fendigaid, tref y miwsig -
Stereophonics, Delwyn Siôn.

Ond wrth droedio, cofia ddwedyd
fod 'na Steddfod yma'n her –
awen gobaith, gwersyll heddwch,
hafan braf i braidd blêr.
Fel y cymoedd, y mae croeso
yma'n aros heb un ffin,
man i flasu heniaith newydd
sydd ar grwydr yn y llun.
Gŵyl sy'n mynnu byd o orffwys
a rhoi heibio arfau cas.
Gŵyl mawrygu hedd diwylliant
sydd i bawb – tu fewn, tu fas.
Gŵyl sy'n glynu fel y gelen
at y gwir a hawliau dyn.
Gŵyl sy'n gofyn ar i'r grymoedd
roi yn deg, i bob un.

Dewch yn bererinion gobaith
i Benrhys a Chlwb y Bont -
potio pêl a pheint a phregeth -
teipio'r neges, mewn sawl ffont!

Awn dan wenu, awn 'da'n gilydd
gan atseinio neges braf -
Bro cymdogaeth yw'r Eisteddfod
a bro Rhondda, Cynon Taf!

Catrin Dafydd

Rhagor o Flas yr Eisteddfod

Trioedd

Catrin Mathias

Rhagorol, Croesawgar, Trefnus: tri ansoddair i ddisgrifio eisteddfod fythgofiadwy Rhondda Cynon Taf.
A thri uchafbwynt (o blith cynifer) i mi oedd:

1. Cadwyn o gerddi dwys, hyfryd, hydeiml Carwyn Eckley sy'n cyffwrdd â'r galon.
2. Y gwasanaeth trên hynod hwylus ac effeithiol i'r maes ac yn ôl. *(Dilynais esiampl Carol a Huw drwy gysylltu â Thrafnidiaeth i Gymru i ddiolch am y ddarpariaeth ddibynadwy a chynhesrwydd Cymreig y staff).*
3. Sgwrs naturiol a dirodres Delwyn a Marged Sion a'u canu swynol yn y Babell Lên a chyfrol atgofion difyr a diffuant Delwyn - lle sylwais mor debyg oedd ffrogiau priodas Ann a minnau! Dyddiau da yn wir.

A rhan o gomedi fuddugol!

Rhedeg y Sioe

Martin Huws

Diolch i Martin hefyd am gael cyhoeddi un olygfa o *Rhedeg y Sioe*, sgript gomedi fuddugol Eisteddfod Genedlaethol 2024.

Mae'r criw yn gweithio i raglen nodwedd, YR HEN LAW wedi cael siom am fod PAUL, sy'n perthyn i reolwr y cwmni, wedi cael swydd cynhyrchydd heb gyfweliad.

Mae'r YMCHWILYDD, sy mewn perthynas â'r GOLYGYDD, wedi bod mewn panig am fod y prif westai gwreiddiol wedi tynnu allan.

Rydyn ni yn swyddfa'r rhaglen.

YR HEN LAW: (*ar y ffôn*) Diolch yn fawr. (*Yn dodi'r ffôn i lawr*) Da iawn, y prif westai'n cyrredd unrhyw funud. Llongyfarchiade, Paul, do'n i ddim yn gwybod dy fod ti'n arbenigwr ar wleidyddiaeth ryngwladol.

PAUL: Gwleidyddiaeth oedd 'yn hoff bwnc yn yr ysgol.

YR HEN LAW: Ysgol gyfun, wrth gwrs.

PAUL: Na, y plant yn rhy gas.

YR HEN LAW'n agor ei geg. Daw'r GOLYGYDD i mewn.

Y GOLYGYDD: Da iawn, Paul, ti wedi achub y rhaglen. Hen bryd bod ni'n cael newyddion da. (*Yn codi ei fys bawd*)

Y ffôn yn canu.

YR YMCHWILYDD: (*wrth Y GOLYGYDD*) Galwad.

Y GOLYGYDD: Y Rheolwr?

YR YMCHWILYDD: Na. (*Yn edrych arno'n anghyfforddus*)

Y GOLYGYDD: (*Saib*) Hylo, bach. Shwd wyt ti? (*Saib*) Beth? (*Saib*) Beth ti'n meddwl? (*Saib*) Ddim yn deall. (*Saib*) Wel, byddai mwy o rybudd yn help. Pryd cest ti'r alwad ffôn? (*Saib*) Beth? (*Saib*) A pryd ti'n dod nôl? (*Saib*) Ti ddim yn styried. (*Saib*) Fydda i'n gorfod neud bwyd 'yn hunan (*Saib*) Rwy'n brysur … yn brysur iawn. (*Saib*) Ti'n gwrando? (*Yn dodi'r ffôn lawr*)

YMCHWILYDD: (*yn hanner gwenu*) Problem?

Y GOLYGYDD: Y wraig yn gorfod mynd i Lerpwl. Cynhadledd … trafod pwysau gwaith.

PAUL: Esgusodwch fi. Af fi draw i Stiwdio Un i ga'l pip ar y set.

Y GOLYGYDD: Call iawn.

Daw Y PRIF WESTAI i mewn. YR HEN LAW yn ei gyflwyno i'r GOLYGYDD a'r YMCHWILYDD.

YR HEN LAW: Beth am ragymarfer?

Y GOLYGYDD: Syniad da. (*Wrth y PRIF WESTAI*) Diolch am ddod. Eisteddwch.

Y PRIF WESTAI: Diolch. (*Yn eistedd*) Gobeithio fydda i ddim yn siomi neb.

Y GOLYGYDD: Fyddwch chi'n iawn. Ymlaciwch.

YR HEN LAW: (*yn eistedd*) Wnethoch chi wylio'r newyddion bore 'ma?

Y PRIF WESTAI: Byth yn colli'r rhaglen.

YR HEN LAW: A beth yw'ch barn?

Y PRIF WESTAI: Y cyflwynydd newydd yn secsi, os ca i ddweud.

YR HEN LAW: (*yn gwenu'n ffug*) Ond beth am yr argyfwng yn y Dwyrain Canol?

Y PRIF WESTAI: Eitha difrifol.

YR HEN LAW: A beth all ddigwydd nesa?

Y PRIF WESTAI: Wel, a dweud y gwir, dim syniad.

YR HEN LAW: (*yn plygu ymlaen*) Ond ma' barn 'da chi, o's bosib.

Y PRIF WESTAI'n agor ei geg ond ddim yn siarad.

YR HEN LAW: Gyda phob parch, chi yn arbenigwr ar wleidyddiaeth ryngwladol.

Y PRIF WESTAI: (*yn plethu ei freichiau*) Pwy wedodd 'ny?

YR HEN LAW: Ond chi yw David Thomson.

Y PRIF WESTAI: (*yn pwyntio bys*) Fi yw David Thompson, "p" yn y canol, darlithydd.

YR HEN LAW: Pa bwnc?

Y PRIF WESTAI: Comedi.

YR HEN LAW: (*â'i ben yn isel*) Wela i.

Y PRIF WESTAI: Pam gofyn cwestiyne dwl 'te?

Y GOLYGYDD: Cyt, 'na ddigon,

Y PRIF WESTAI: Sori.

Y GOLYGYDD: Nid eich bai chi.

Y PRIF WESTAI: (*yn codi*) Fe garwn i roi adborth,

YR HEN LAW: Adborth?

Y PRIF WESTAI: Y bisgedi'n flasus.

Y GOLYGYDD: (*yn crafu ei war*) Ble ma' Paul? Cer i ôl y diawl. Nawr.

Marian yn myfyrio

Hyd a Lled

Marian Ifans

Fues i'n pori yn Llyfr Idiomau R E Jones y diwrnod o'r blaen, ac mae'r rheswm ar ddiwedd y llith. Mae'n rhyfedd fel mae maint, mesur a chymharu yn dod i mewn i'n hiaith bob dydd. Dyma i chi rai ohonynt:

"Hyd a lled (rhywbeth)
Rhoi mesur byr (dim yn rhoi digon)
"heb fod yn llawn llathen"
"mesur pawb wrth ei lathen o/hi" (barnu?)"
"lled troed" (digon o le i chi roi eich troed arno) e.e yn y gerdd "Cwm Pennant"
"Ni feddaf led troed ohono"
"Llathen o gowntar" (busnes llewyrchus)
"cadw hyd braich oddi wrtho/wrthi" (peidio mynd yn rhy gyfeillgar)
"dwy lath o ddŵr pwmp" (rhywun tal!!)
"mesur fy hyd" (syrthio'n glewt ar y llawr)

Aeth y gair "mesur" yn "fesul" e.e fesul un hefyd. Ac rydw i'n hoff iawn o'r cwpled

"Duw biau edau bywyd,
A'r hawl i fesur ei hyd"

A dyma'r rheswm yr es i bori yn y llyfr – isod mae'r stori
Roedd yn arferiad fod y gŵr i fod yn dalach na'r wraig, ac arweiniai hyn ar dipyn o dynnu coes. Digwyddodd hyn yn ôl y sôn fod Taid Nantlle – oedd dros chwe throedfedd – wedi priodi Nain oedd gwta bum troedfedd.
Gofynnwyd i Nhaid pam roedd wedi dewis gwraig mor fyr, a'i ateb oedd
"Llai o frethyn i wneud côt iddi!!"
Mae'r idiomau yma'n prysur ddiflannu o'n hiaith bob dydd – mwya'r piti! Dw i'n siŵr fod ganddoch chi, ddarllenwyr stôr o idiomau sy'n prysur edwino.
Buasai Ifan Roberts wrth ei fodd yn eu clywed! Ewch ati i grafu pen!!

... A'r gair olaf am y tro

Jehu Heol Goch

Na! Nid rhan o'r cynnyrch eisteddfodol

Mae'n gas gen i rai sy'n closio'n fygythiol o agos at fymper cefn fy nghar. Hwyrach eich bod chwithau'n teimlo yr un fath. A gwae chi os ydych chi'n un o'r rhai sy'n euog o'r fath arferiad.
'Dyw'r cyfyngiad 20 milltir maith drwy Bentrepoeth a Radur ddim yn help – pawb yn ysu am eich gweld yn prysuro ychydig fwy na'r hyn sy'n gyfreithlon.
Ar y llaw arall, mae ymadael a chyfyngiadau cyflymder Pentyrch fel pe bai'n rhyddhad i sawl un ac fe welwch dystiolaeth gyson o rai a'u bryd ar fod ryw dro yn rasio Fformiwla Un. Ond y bore o'r blaen, cefais y profiad rhyfeddaf eto.
Roeddwn newydd basio'r arwydd i nodi fod rhyddid i fynd dros 30 milltir yr awr ac yn fy ffordd hamddenol yn prysuro lawr yr allt (tyle i rai ohonoch chi) ac wedi cyrraedd yn agos i'r 40.
Yn y drych, gwelwn fod yna seiclydd yn nesáu at gefn yr hen Ffordyn. Yr helmed ar y pen yn isel ac agos at y cyrn llywio. Roedd yn closio – yn wir roedd erbyn hyn o fewn llai na llathen i'r bympar cefn.

Rŵan, mae Heol Goch yn eitha serth ac ymron ddwy filltir o hyd. Roedd yn amlwg nad oeddwn yn symud ddigon chwim i'r un oedd tu ôl i mi.
Gan wybod fod beicwyr rasio yn gallu "coedio" yn go drwm, wn i ddim a ddylwn i synnu fod yr unigolyn dan sylw yn seiclo ar 40 m.y.a. ac o fewn dwy droedfedd i gist cefn yr hen siandri. Roeddwn i'n ymwybodol mod i, fel arfer, yn tueddu y frecio os daw bws neu lori i hawlio mwy na'i siâr o'r ffordd. Doedd wiw i mi fentro hynny y tro hwn, gan fod posibilrwydd na welai'r un yn y cyfrwy mo'r goleuadau brêcs.
Yn wir, roedd mor agos erbyn hyn fel y gallwn weld mai seiclydd fenywaidd ifanc oedd yn fy erlid.
Beth oedd y brys? Pam cadw mor agos? Wn i ddim! Ond fe drodd i'r chwith ar waelod Heol Goch i gyfeiriad Gwaelod-y-garth ac fe gefais innau ymlacio.
Rwy'n cysuro fy hun mai rhuthro adra roedd hi i ysgrifennu i'r Gair Bach am ei phrofiad!

Ifan Roberts

... Anfonwch air i'r rhifyn nesaf – ar bapur, mewn pensel neu Parker!
.... o gyfrifiadur neu declyn tabled
.....neu gwnaiff llun y tro – oddi ar eich ffôn poced neu mewn 'sepia'
Newyddion – Atgofion – Briwsion
"cofnodwch - watsapiwch – e-bostiwch – anfonwch"

Beth am anelu am Ragfyr 9fed?

Ifan Roberts
tycnau@aol.com

ATEBION Y Cwis Bach Bwyd.

1. O ble ma' French Fries yn dod? ... **Gwlad Belg**
2. O ble ma' Hamburgers yn dod? ... **Hamburg**
3. Pwy roddodd Pysgod a Sglods gyda'i gilydd gyntaf? ... **Cogyddion ym Mhortiwgal**
4. O ble ma' Scotch Eggs yn dod? ... **India**
5. O ble ma' Chicken Tikka Masala'n dod? ... **Yr Alban**